



Academi Ddelweddu
Genedlaethol **Cymru**
National Imaging
Academy **Wales**



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru

Rhaglen Gyllido Addysg Feddygol a Gofal Iechyd

Canllawiau

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

Erbyn 6 Gorffennaf 2020

Canllawiau ar gyfer ceisiadau Rhaglen Gyllido Addysg Feddygol a Gofal Iechyd

Cefndir

Y Gweithlu Delweddu

Mae gwasanaethau delweddu yn elfen glinigol allweddol o ofal iechyd, ac yn rhan sylfaenol o roi diagnosis, a thrin a monitro afiechydon. Mae'r modd y mae gwasanaethau delweddu diagnostig yn cael eu darparu wedi newid lawer dros y blynyddoedd; dydy delweddu diagnostig bellach ddim yn cael ei wneud gan Adrannau Radioleg yn unig, na chwaith yn cael ei ddehongli gan Radiolegwyr Ymgynghorol yn unig. Mae nifer fawr o grwpiau arbenigol a phroffesiynol yn darparu'r gwasanaethau hyn, gyda chysylltiadau integredig cryf rhwng proffesiynau clinigol. Mae'n hanfodol cydnabod bod delweddu diagnostig yn wasanaeth clinigol sydd angen gweithlu sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r arbenigedd i gynorthwyo'r gwaith o wneud penderfyniadau. Nid oes modd cyflawni hyn heb ddigon o addysgwyr, tiwtoriaid clinigol ac academaidd, mentoriaid ac ymchwilwyr clinigol o safon uchel sydd â'r wybodaeth, y profiad, a'r sgiliau angenrheidiol i roi cymorth i weithlu mor ddeinamig.

Gwybodaeth am Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (NIAW)

Cafodd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru ei sefydlu ym mis Awst 2018 i roi cymorth i'r gweithlu hwn trwy gynyddu'r niferoedd allai gael hyfforddiant, a sicrhau bod hyfforddiant digonol ar gael ar gyfer gweithlu delweddu diagnostig cynaliadwy yn y dyfodol. Mae canolfan hyfforddiant gyda'r Academi sy'n gyfrifol am addysg, hyfforddiant a datblygiad gweithlu delweddu diagnostig dan

oruchwyliaeth. Mae'r Academi yn cynnig hyn trwy hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, datblygiad proffesiynol parhaus, a chyrsiau i ehangu sgiliau ar gyfer gweithwyr proffesiynol delweddu ar draws GIG Cymru.

Pwrpas Rhaglen Gyllido Addysg Feddygol A Gofal Iechyd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru

Nodau

Hoffai'r Academi sefydlu cymuned o addysgwyr, mentoriaid a thiwtoriaid sy'n ymrwymedig i hybu gwelliannau addysg y byddwn ni'n eu dysgu i weithwyr proffesiynol y dyfodol o fewn GIG Cymru.

Mae'r Academi yn awyddus i roi cymorth i weithwyr proffesiynol brwdfrydig ar eu taith addysgol bersonol, e.e. PgC, PhD, gyda'r nod o ddarparu fframwaith cymorth i'r dysgwyr yn ystod eu hastudiaethau, ond gyda'r nod hefyd o gynnig platfform lle gallan nhw ddefnyddio ac ymarfer sgiliau newydd mewn amgylchedd â chymorth.

Dylai ceisiadau arddangos datblygiad personol a phroffesiynol er mwyn gwella effeithlonrwydd mewn swydd bresennol sy'n cyfrannu at ddelweddu diagnostig a'i weithlu, neu mewn swydd yn yr un maes yn y dyfodol.

Amcanion

- Hybu addysg feddygol/gofal iechyd ôl-raddedig o fewn gweithlu delweddu diagnostig GIG Cymru

- Gwella gwybodaeth, sgiliau, hyder a chymhwysedd yr addysgwyr gofal iechyd/meddygol o fewn GIG Cymru trwy brofiadau academaidd ac ymarferol â chymorth
- Cynyddu'r nifer o gyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus a chyfleoedd dysgu i'r gymuned Ddelweddu Diagnostig o fewn GIG Cymru.

Pa gymorth sydd ar gael?

Cyllid

- Bydd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru yn cynnig hyd at £3000 ar gyfer ffioedd cwrs ôl-raddedig addysg feddygol neu ofal iechyd cymeradwy. Gallai hyn gynnwys cyrsiau yn y meysydd canlynol: Addysg Feddygol; Addysg Gofal Iechyd; Addysg Glinigol; Ymarfer Addysg Feddygol; Arweinyddiaeth, Ymchwil ac Addysgu Meddygol; Addysgu a Dysgu i Weithwyr Iechyd Proffesiynol; Addysg Feddygol a Chlinigol.
- Bydd y cyllid yn ddigon ar gyfer 1 flwyddyn academaidd yn unig. Gallwch chi ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw flwyddyn academaidd, o flwyddyn PgC i flwyddyn olaf y PhD.
- Bydd ffioedd y cwrs yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r sefydliad academaidd.

Cymorth Ffisegol

- Yn ei rôl fel canolfan addysgol, mae Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru yn cyflogi 26 hyfforddwr addysgol o broffesiynau Gwyddorau Gofal Iechyd a Meddygol. Mae'n cydweithio â nifer fawr o weithwyr proffesiynol delweddu

eraill hefyd, felly bydd digon o gymorth amlddisgyblaethol ar eich cyfer ar eich taith academaidd ac ymarferol.

- Mae'r Academi'n cynnal, arwain a rheoli ystod eang o gyrsiau a digwyddiadau lle gallwch chi ymarfer eich sgiliau ymarferol mewn amgylchedd cefnogol dan oruchwyliaeth.
- Gall yr Academi gynnig man hygyrch, tawel i chi astudio ynddi

Beth sydd ddim yn cael ei gynnwys

Bydd hyd at £3000 o gyllid ar gael ar gyfer ffioedd cwrs yn unig:

- Os yw ffioedd y cwrs yn fwy na hyn, bydd angen i'r dysgwr dalu am y gweddill ei hun, neu geisio cael cyllid gan ei gyflogwr
- Fydd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru ddim yn talu am dreuliau teithio, llety na chynhaliaeth
- Fydd yr Academi ddim yn ad-dalu cyflogwyr os bydd y dysgwr yn cymryd absenoldeb astudio
- Fydd yr Academi ddim yn darparu unrhyw ddeunyddiau ymchwil/cwrs nac adnoddau

Beth rydyn ni'n ei ddisgwyl oddi wrthy ch

Bydd rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymo i'n helpu i gyrraedd ein nod o sefydlu cymuned o addysgwyr, mentoriaid a thiwtoriaid sy'n ymrwymedig i hybu gwelliannau addysg o fewn GIG Cymru.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus wneud y canlynol:

- Ymrwymo i ddylunio a darparu sesiwn Datblygu Personol Parhaus, dysgu neu hyfforddi sydd o fudd i'r gweithlu delweddu diagnostig yn ei faes arbenigedd proffesiynol NEU gydweithio â'r Academi ar brosiect ymchwil sydd o werth damcaniaethol NEU glinigol i ddelweddu diagnostig yn ei faes arbenigedd proffesiynol.
- Ymrwymo i gwblhau ei ddewis gymhwyster yn ôl yr amserlen a gytunwyd arni (blwyddyn academaidd 2020/2021) gan ystyried y cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd cymdeithasol, ac ymrwymadau clinigol, teuluol ac ariannol.
- Arwain trwy esiampl, gan ddefnyddio ei gymhwyster i helpu'r academi i arddel gwerth addysg ôl-raddedig, ac effaith gadarnhaol hyn ar wasanaethau delweddu diagnostig

Pwy sy'n cael gwneud cais

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fodloni'r meini prawf canlynol:

- Mae'r ymgeisydd yn weithiwr iechyd proffesiynol sy'n gweithio neu â diddordeb arbenigol ym maes delweddu diagnostig.
- Mae'r ymgeisydd yn cael ei gyflogi gan GIG Cymru
- Mae gradd gyntaf berthnasol gyda'r ymgeisydd o sefydliad cofrestredig
- Mae cymhwyster proffesiynol perthnasol sydd gyfwerth â gradd ail ddsbarth uwch gyda'r ymgeisydd
- Mae o leiaf 3 blynedd o brofiad proffesiynol llawn amser (neu brofiad rhan amser cyfwerth) gyda'r ymgeisydd
- Mae tystiolaeth o gefnogaeth cyflogwr ar gyfer absenoldeb astudio gyda'r ymgeisydd (os oes angen)

- Mae'r ymgeisydd yn barod i dalu treuliau sy'n gysylltiedig â theithio a chynhaliaeth sy'n ymwneud â'r cwrs
- Mae'r ymgeisydd yn barod i gydweithio â'r Academi i gyflawni prosiect addysgol/ymchwil sydd o werth i wasanaethau delweddu diagnostig GIG Cymru

Ceisiadau

- Rhaid gwneud pob cais trwy ddilyn y ddolen gofrestru:

<https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=uChWuyjigkCoVkM8ntyPri2COJ6jX7VOfwwwutJw1UM1pYM0Y4VlhPSII4QVZaQ0tETVFONktKVCQIQCNOPWcu>

- Fydd ceisiadau ddim yn cael eu hystyried oni bai bod gwybodaeth ddigonol yn y cais; bydd hyn yn cynnwys amlinelliad o'r prosiect ymchwil neu addysgol ar y cyd ag Academi Ddelweddu Cenedlaethol Cymru - *peidiwch â phoeni, rydyn ni'n deall ei bod yn bosibl mai dim ond amlinelliad sydd gyda chi. Rydyn ni'n hapus i weithio gydag unigolion i ddatblygu syniadau*
- Os oes angen absenoldeb astudio neu wyliau blynyddol i ddod i sesiynau academaidd, bydd rhaid cael cadarnhad bod eich cyflogwr wedi rhoi caniatâd
- Os yw ffioedd y cwrs dros £3000, rhaid darparu cadarnhad ysgrifenedig o'r ffynhonnell o gyllid ychwanegol
- Bydd ymgeiswyr yn nodi eu dewis gwrs ôl-raddedig a sefydliad academaidd yn eu cais
- Rhaid cyflwyno pob cais erbyn 6 Gorffennaf 2020
- Bydd pob cais yn cael ei adolygu a'i brosesu erbyn 20 Gorffennaf 2020 pan fydd ymgeiswyr yn cael gwybod a ydyn nhw wedi cyrraedd y rhestr fer

- Bydd gofyn i ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer fynd i gyfweiliad anffurfiol i drafod eu cais yn yr wythnos sy'n dechrau 3 Awst 2020
- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod eu bod wedi llwyddo erbyn 10 Awst 2020 fan bellaf
- Byddwn ni'n ymdrechu i gynnig adborth adeiladol i bob ymgeisydd sydd ddim yn llwyddiannus yn y rownd cyllido hwn

Y Panel Dyfarnu

Bydd y panel dyfarnu yn cyfarfod yng Ngorffennaf 2020, a bydd yn cynnwys uwch-gynrychiolwyr o Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru, Proffesiynau Delweddu Diagnostig, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Bydd pob cais yn cael ei ystyried gan y panel, fydd yn sgorio ymgeiswyr ar sail yr wybodaeth yn y datganiad ategol. Manylir ar feini prawf sgorio'r panel yn Atodiad 1.

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod dros e-bost a yw eu cais yn llwyddiannus ai peidio erbyn 03.08.20.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn adborth ysgrifenedig yn esbonio pam roedd y cais yn aflwyddiannus. Byddan nhw'n gallu defnyddio'r adborth i wneud cais arall yn y dyfodol.

Os bydd aelod o'r panel yn gwneud cais am gyllid ar gyfer ei ddatblygiad ei hun, byddai'n gallu rhoi sgôr i bob cais heblaw ei un ef.

Os oes gwrthdaro buddiannau, fel cais gan aelod o staff, gall yr aelod o'r panel ddatgan 'gwrthdaro buddiannau' a dewis a yw'n sgorio'r cais hwnnw ai peidio. Yr unig bryd na fydd sgôr panel yn cael ei derbyn yw os bydd rheolwr llinell yr ymgeisydd ar y panel.

Cefnogaeth gan y Rheolwr Llinell

Mae cefnogaeth gan y rheolwr llinell yn hanfodol wrth i'r panel ystyried y dyfarniad. Dylai rheolwyr llinell anfon e-bost i gyd-fynd â'r cais. Mae templed e-bost yn Atodiad 2.

Tystysgrif Cadarnhad

Bydd pawb sy'n derbyn y wobr yn gorfod cwblhau a dychwelyd Ffurflen Gadarnhad yn brydlon er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- Mae'r ymgeisydd yn derbyn y wobr
- Mae'r ymgeisydd yn datgan unrhyw gyllid arall y bydd yn derbyn ar gyfer ei astudiaethau
- Mae'r ymgeisydd yn derbyn Telerau ac Amodau'r wobr fel y'u hamlinellir yn y ddogfen ganllawiau hon (Atodiad 3)
- Mae'r ymgeisydd yn derbyn bod yr hawl gydag Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru i dynnu'r cyllid yn ôl os na fodlonir y Telerau a'r Amodau y'u hamlinellir yn Atodiad 3.

Trefniadau Anfonebu

Bydd y taliad yn cael ei wneud yn uniongyrchol i'r sefydliad lle bydd yr ymgeisydd yn astudio ar ôl derbyn anfoneb i'r cyfeiriad canlynol:

Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru

c/o BIP Cwm Taf Morgannwg

PO BOX 111

PONT-Y-PŴL

NP4 4DF

Rhaid i dderbynwyr y wobr sicrhau bod y manylion anfonebu cywir gyda'r sefydliad sy'n derbyn y taliad. Bydd methiant i wneud hynny yn golygu na fydd modd talu ffioedd y cwrs ar amser.

Atodiad 1 - Cyllido Addysg Feddygol a Gofal Iechyd - Meini prawf sgorio'r Panel Dyfarnu 1

| Meini prawf ar gyfer gwneud cais | Rhagorol | Da | Boddhaol | Gwael |
|--|--|--|---|--|
| <p>1. Mae'r ymgeisydd wedi disgrifio sut bydd canlyniadau'r cwrs yn diwallu ei anghenion datblygu personol.</p> <p>Dylai'r ymgeisydd nodi'n glir yr anghenion datblygu personol penodol yr hoffai eu datblygu, a dylai ddangos sut bydd y rhain yn cael eu cyflawni ar ei ddewis gwrs a'r prosiect Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru sydd wedi ei nodi. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth a sgiliau i wella hunanymwybyddiaeth, sgiliau rhyngpersonol, sgiliau astudio, sgiliau gwneud penderfyniadau, hyder, meddwl yn feirniadol, myfyrio, sgiliau ysgrifennu, gwaith tîm, mentora a.y.y.b.</p> <p>Gallai hyn gynnwys datblygu sgiliau arweiniad a rheoli hefyd, hyd yn oed lle nad oes eu hangen ar gyfer y swydd bresennol.</p> <p>Dylai'r ymgeisydd ddangos ei fod yn ymwybodol bod datblygu ei hun yn ganlyniad pwysig i ddysgu.</p> | <p>(9-10)</p> <p>Mae'n nodi anghenion datblygu personol clir</p> <p>Mae cysylltiad clir rhwng yr anghenion a nodwyd a'r cwrs a'r prosiect</p> <p>Mae'n dangos ymwybyddiaeth lawn o'r angen i ddatblygu ei hun yn rhan o'r dysgu</p> | <p>(6-8)</p> <p>Mae'n nodi anghenion datblygu personol clir</p> <p>Mae'n cysylltu'r anghenion a nodwyd â'r cwrs a ddewiswyd</p> <p>Mae'n arddangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu ei hun yn rhan o'r dysgu</p> | <p>(3-5)</p> <p>Mae'n gwneud rhywfaint o ymdrech i nodi anghenion datblygu personol a/neu i'w trafod yng nghydestun y cwrs a ddewiswyd</p> <p>Mae'n dangos ymwybyddiaeth sylfaenol o'r angen i ddatblygu ei hun yn rhan o'r dysgu</p> | <p>(0-2)</p> <p>Dydy'r ymgeisydd ddim yn nodi unrhyw anghenion datblygu personol, nac unrhyw ystyriaeth o sut y gallai'r cwrs hwyluso'r rhain</p> <p>Dydy'r ymgeisydd ddim yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu ei hun</p> |
| <p>2. Mae'r ymgeisydd wedi disgrifio sut mae canlyniadau'r cwrs yn diwallu ei anghenion datblygu proffesiynol o ran gwella effeithlonrwydd yn y swydd.</p> <p>Dylai'r ymgeisydd nodi'n glir ar y wybodaeth a'r sgiliau proffesiynol, penodol i'r swydd y mae'n bwriadu ceisio eu datblygu, a gwneud cysylltiadau uniongyrchol â'r modd bydd y rhain yn cael eu cyflawni ar y dewis gwrs, yn ogystal â'r prosiect Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru a nodwyd. Gallai hyn gynnwys methodoleg ymchwil, dadansoddi ystadegau a data, llywodraethu ymchwil, sicrhau ansawdd, sgiliau clinigol, sgiliau prosiect, sgiliau ariannol a.y.y.b.</p> <p>Gallai hyn gynnwys datblygu arweinyddiaeth a rheoli os bydd angen clir am hyn yn y swydd bresennol.</p> | <p>(9-10)</p> <p>Mae'n nodi anghenion datblygiad proffesiynol clir</p> <p>Mae'n dangos cysylltiad clir rhwng y cwrs a'r anghenion a nodwyd</p> <p>Mae'n dangos ymwybyddiaeth lawn o'r angen i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n benodol i'r swydd yn rhan o'r dysgu</p> | <p>(6-8)</p> <p>Mae'n nodi anghenion datblygiad proffesiynol clir</p> <p>Mae'n cysylltu'r anghenion a nodwyd â'r cwrs a ddewiswyd</p> <p>Mae'n dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n benodol i'r swydd yn rhan o'r dysgu</p> | <p>(3-5)</p> <p>Mae'n gwneud rhywfaint o ymdrech i nodi anghenion datblygu proffesiynol a/neu eu trafod yn nghydestun y dewis gwrs</p> <p>Mae'n dangos ymwybyddiaeth sylfaenol o'r angen i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n benodol i'r swydd yn rhan o'r dysgu</p> | <p>(0-2)</p> <p>Dydy'r ymgeisydd ddim yn nodi unrhyw anghenion datblygu proffesiynol, nac unrhyw ystyriaeth o'r modd y byddai'r cwrs yn hwyluso'r rhain</p> <p>Dydy'r ymgeisydd ddim yn dangos unrhyw ymwybyddiaeth</p> |

| | | | | |
|---|--|--|--|--|
| Dylai'r ymgeisydd arddangos ymwybyddiaeth fod datblygiad sy'n benodol i'r swydd yn ganlyniad pwysig i'r dysgu. | | | | o'r angen i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sy'n benodol i'r swydd |
| <p>3. Mae'r ymgeisydd wedi disgrifio sut bydd y prosiect a'r cwrs arfaethedig yn cyfrannu at wasanaethau delweddu diagnostig.</p> <p>Dylai'r ymgeisydd nodi'n glir ei gwrs a'i brosiect, a dylai wneud cysylltiadau uniongyrchol â'r modd y bydd gwasanaethau delweddu diagnostig yn cael budd o'r dewis gwrs a phrosiect.</p> <p>Gall hyn gynnwys dyheadau byrdymor neu hirdymor, a gall ymwneud â dyheadau yn swydd bresennol yr ymgeisydd a/neu ei swyddi yn y dyfodol.</p> | <p>(9-10)</p> <p>Mae'n esbonio sut mae'r cwrs a'r prosiect yn ymwneud â'i ddyheadau gyrfaal mewn modd clir</p> <p>Mae'n gwneud cysylltiad clir rhwng y cwrs a gwella gwasanaethau delweddu diagnostig</p> | <p>(6-8)</p> <p>Mae'n esbonio sut mae'r cwrs a'r prosiect yn ymwneud â'i ddyheadau gyrfaal mewn modd clir</p> | <p>(3-5)</p> <p>Mae'n gwneud rhywfaint o ymdrech i nodi sut mae'r cwrs a'r prosiect yn ymwneud â'i ddyheadau gyrfaal a darpariaeth gwasanaethau delweddu, a/neu eu trafod yn nghydestun y dewis gwrs</p> | <p>(0-2)</p> <p>Dydy'r ymgeisydd ddim yn gwneud unrhyw ymdrech i nodi sut mae'r cwrs a'r prosiect yn ymwneud â'i ddyheadau gyrfaal, nac yn ystyried y modd y gallai'r cwrs a'r prosiectau gyfrannu at wella gwasanaethau delweddu diagnostig.</p> |
| <p>4. Mae'r ymgeisydd wedi disgrifio'r modd y mae'r cwrs yn cyfrannu at un neu fwy o nodau ac amcanion Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru.</p> | <p>(9-10)</p> <p>Mae'n nodi'r nod/au ac amcan/ion perthnasol yn glir</p> <p>Mae'n gwneud cysylltiad clir rhwng y cwrs a'r nod/au ac amcan/ion a nodwyd</p> <p>Mae'n dangos ymwybyddiaeth o'r angen i sicrhau bod dysgu yn cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru</p> | <p>(6-8)</p> <p>Mae'n nodi'r nod/au ac amcan/ion perthnasol yn glir</p> <p>Mae'n gwneud cysylltiadau â'i ddewis gwrs</p> <p>Mae'n dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r angen i sicrhau bod dysgu yn cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru</p> | <p>(3-5)</p> <p>Mae'n gwneud rhywfaint o ymdrech i nodi nod/au ac amcan/ion perthnasol a/neu eu trafod yng nghyd-destun ei ddewis gwrs</p> <p>Mae'n dangos ymwybyddiaeth sylfaenol o'r angen i sicrhau bod dysgu yn cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru</p> | <p>(0-2)</p> <p>Dydy'r ymgeisydd ddim yn gwneud unrhyw ymdrech i nodi nodau ac amcanion a/neu i'w trafod yng nghyd-destun ei ddewis gwrs</p> |

Atodiad 2: Tabled e-bost gan y Rheolwr Llinell

Rydw i, rheolwr llinell [ymgeisydd] yn cadarnhau:

Mae'r datblygiad hwn yn rhan o PADR presennol yr ymgeisydd/Caiff y datblygiad hwn ei gynnwys yn PADR yr ymgeisydd ar y cyfle nesaf (dilwch fel y bo'n briodol)

Byddai'r datblygiad hwn yn cael ei ariannu pe bai cyllid digonol ar gael gan ein hadran/ein sefydliad.

Bydd y cais hwn yn cyfrannu at gyflawniad nodau ac amcanion strategol Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru, fel y'i hamlygir gan yr ymgeisydd.

Rydw i wedi trafod yr ymrwymiad amser â'r ymgeisydd ac rydw i wedi cytuno iddo gael amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn mynychu'r rhaglen astudio

(Dylai unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n cefnogi'r cais gael ei chynnwys hefyd)

Atodiad 3: Nodau ac Amcanion Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru

Sicrhau bod cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â nhw yn ganolog i'r hyn rydyn ni'n ei wneud, a bod hynny'n amlwg ym mhob agwedd o'n gwaith

Amcanion:

- Sicrhau bod y cyhoedd yn ganolog i hyfforddiant, arloesedd ac ymchwil yr Academi
- Rhoi'r cyhoedd wrth wraidd creu gwybodaeth a rhoi gwybodaeth newydd ar waith

**Ystyrir bod y term 'y cyhoedd' yn cynnwys cleifion, cleifion posibl, gofalwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, yn ogystal â phobl o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl sy'n defnyddio gwasanaethau.*

Sicrhau bod ein gwaith yn gyson â'r Datganiad o Fwriad Delweddu, a'i fod yn cael effaith wirioneddol

Amcanion:

- Ariannu a defnyddio tystiolaeth ymchwil i wella gwasanaethau delweddu diagnostig ar draws GIG Cymru
- Gwellu gwasanaethau delweddu diagnostig yng Nghymru trwy wella gofal a'r ddarpariaeth o wasanaethau, trwy ddatblygu'r gweithlu a thrwy sicrhau gwell canlyniadau iechyd a lles.
- Sicrhau bod hyfforddiant ac ymchwil yn llywio arloesedd mewn delweddu diagnostig yng Nghymru

Buddsoddi mewn hyfforddiant, arloesedd ac ymchwil mewn delweddu diagnostig ar draws GIG Cymru

Amcanion:

- Sefydlu cymuned amlddisgyblaethol o fentoriaid, tiwtoriaid ac addysgwyr ôl-raddedig sy'n ymrwymedig i hybu gwelliannau mewn addysg ym maes delweddu diagnostig ar draws GIG Cymru
- Hwyluso'r gwaith o wella gwybodaeth, sgiliau, hyder a chymhwysedd yr addysgwyr gofal iechyd/meddygol o fewn GIG Cymru trwy brofiadau academaidd ac ymarferol â chymorth
- Datblygu rhaglen hyfforddi a Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) gadarn o fewn GIG Cymru
- Hwyluso'r defnydd o ddata delweddu diagnostig sy'n cael eu casglu yn rheolaidd i wneud ymchwil o safon uchel ac i lywio'r gwaith o wella gwasanaethau.